



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

Cyfarfod o Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol: 20 Mehefin 2024

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio
Morol ar 20 Mehefin 2024.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Mehefin 2024

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Mehefin 2024

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Yn bresennol

- Croeso
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio morol
- Optimeiddio a chynllunio morol
- Y newyddion diweddaraf am y rhaglen 'Gwely Cyfan y Môr'
- Diweddariad gan Gymdeithas Cadwraeth Forol ar gynllunio morol ar gyfer natur
- Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod nesaf

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Yn bresennol

Eluned Jones (Chair, Welsh Government), Elen King & Megan Nicholas (Welsh Government), Adrian Judd (Cefas), Helen Bloomfield, Karen Perrow & Lee Murray (NRW), Tristian Bromley & Emma Harrison (The Crown Estate), Noemi Donigiewicz (Seafish), Helen Croxson & Nick Salter (Maritime and Coastguard Agency), Rowena Haines (RSPB), Jim Evans (Welsh Fishermans Association), Ben Smith (Wildlife Trust Wales), Emma Thorpe & Olivia Ross (Joint Nature Conservation Committee), Jay Sheppard & Tom Hill (Marine Energy Wales), Jonathan Monk (Milford Haven Port Authority), Dr Julian Whitewright (Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales)

1. Croeso

Croesawodd Eluned aelodau newydd i'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) a cychwynnodd gyflwyniadau bord gron.

2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynllunio morol

Cyflwynodd Eluned Bapur 1: Dogfennau a dulliau presennol o ddatblygu cynllunio morol.

Tynnodd Eluned sylw at yr ymgynghoriad a gaewyd yn ddiweddar ar **Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl** a diolchodd i bawb a ymatebodd. Rydym wrthi'n ystyried yr ymatebion a ddaeth i law a byddwn yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion maes o law.

Diolchodd Eluned i'r aelodau a gynigiodd astudiaethau achos i'w cynnwys mewn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

canllawiau sydd ar ddod ar bolisi ENV_01 (ecosystemau morol cydnerth) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP). Nododd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn dechrau edrych ar sut y gallem gefnogi gweithredu polisi ENV_07 WNMP (cynefinoedd a rhywogaethau pysgod).

Nododd Elen King fod disgwyl yr adroddiad tair blynedd statudol nesaf ar effeithiolrwydd y WNMP ym mis Tachwedd 2025 a'n bod yn awyddus i siarad â rhanddeiliaid i glywed eu barn.

3. Optimeiddio a chynllunio morol

Cyflwynodd Eluned drosolwg byr o: Bapur 2: Papur Trafod – Optimeiddio a Chynllunio Morol.

Eglurodd Eluned fod y papur yn adeiladu ar drafodaethau o gyfarfod yr MPSRG ym mis Mawrth ynghylch sut y gallwn barhau i ddatblygu'r fframwaith cynllunio morol yng nghyd-destun cynyddu galwadau gofodol ar ein hardal forol.

Dywedodd fod Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, wedi cytuno i gomisiynu adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol i lywio syniadau am y materion hyn. Mae Papur 2 yn rhoi trosolwg o'r hyn y mae disgwyl ei gynnwys yn yr adolygiad. Nod Papur 2 hefyd yw cefnogi trafodaeth ehangach gydag aelodau MPSRG ar anghenion tystiolaeth allweddol posibl ar gyfer datblygu mwy o fanylebau gofodol o fewn y fframwaith cynllunio morol.

Cymerodd aelodau'r Grŵp ran mewn trafodaeth agored ar Bapur 2.

Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Gofynnodd yr Aelodau am amserlenni ar gyfer cynnydd yn y gwaith ar y materion amrywiol a amlinellir ym Mhapur 2. Nododd Eluned fod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Llywodraeth Cymru yn gobeithio dechrau'r adolygiad annibynnol yn ystod yr hydref. Tynnodd Eluned sylw hefyd at ymrwymiad Gweinidogion Cymru i weithio drwy'r fframwaith a sefydlwyd gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth ac eglurder gofodol. Amlygodd waith diweddar, gan gynnwys mapio Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig a mapio adnoddau cysylltiedig, fel enghreifftiau o hyn.

- Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd deall cyfleoedd ar gyfer cydfodoli, gan nodi cydfodoli fel dull allweddol o wneud y gorau o werth a'r defnydd o ofod morol.
- Trafododd yr aelodau arwyddocâd mapio ardaloedd allweddol pysgodfeydd a data iVMS.

4. Y newyddion diweddaraf am y rhaglen 'Gwely Cyfan y Môr'

Mae Tristan Bromley, Ystâd y Goron (TCE), wedi rhoi diweddariad ar raglen 'Gwely Cyfan y Môr' (WoS).

Darparodd Tristan rhywfaint o gefndir i raglen WoS a bu'n trafod y dadansoddiad gofodol a'r fethodoleg mapio a ddefnyddiwyd. Rhoddodd drosolwg o'r cynnydd hyd yma, gan nodi bod fersiynau cyntaf dadansoddiadau gofodol wedi'u cwblhau ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys natur (sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar ei adfer, ei ddiogelu a'i wella). Nododd fod ymgysylltu rheolaidd â Llywodraeth Cymru, ac amlygodd y potensial i WoS fwydo i waith Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o eglurder gofodol a sicrhau'r budd gorau posibl drwy'r fframwaith cynllunio morol (gweler eitem 3 uchod). Nododd Tristan fod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dechrau ar y dadansoddiadau gofodol a gwblhawyd hyd yma trwy WoS, ochr yn ochr ag ailadrodd parhaus y sylfaen dystiolaeth sylfaenol. Pwysleisiodd fod WoS yn rhaglen ailadroddol, sy'n hyblyg i newid.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

Diolchodd aelodau MPSRG i Tristan am ei gyflwyniad a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Nododd yr Aelodau y bydd gweld allbynnau mapio WoS yn allweddol, er enghraifft wrth ddeall cwmpas posibl datblygu ynni adnewyddadwy morol yn y dyfodol a cheblo cysylltiedig, a sut mae hyn yn cael ei ystyried o fewn gwaith cynllunio morol ehangach. Cadarnhaodd Tristan ac Eluned fod Llywodraeth Cymru a TCE yn ymgysylltu'n agos â gwaith WoS ac allbynnau mapio.
- Trafododd yr aelodau y defnydd o grid hecsagon ar gyfer dadansoddiad gofodol WoS.
- Croesawodd yr Aelodau y dull cydweithredol sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a TCE, gan nodi cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ddefnydd a chyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer defnyddio'r gofod morol yn y dyfodol.

5. Diweddariad gan Gymdeithas Cadwraeth Forol ar gynllunio morol ar gyfer natur

Nid oedd Chloe Wenman, y Gymdeithas Cadwraeth Forol (MCS) yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd salwch. Rhoddodd Eluned ddiweddariad ysgrifenedig a ddarparwyd gan Chloe. Mae'r MCS yn caffael darn o waith i gynhyrchu adroddiad technegol, sy'n cynnwys argymhellion ar ddulliau cynllunio morol i ddiogelu, adferu gwella'r amgylchedd morol orau, a chefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymadau a thargedau amgylcheddol. Nod MCS yw i'r gwaith hwn ategu a bwydo i'r adolygiad annibynnol o ddulliau cynllunio morol sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.

6. Unrhyw faterion eraill a dyddiad y cyfarfod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

nesaf

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Nododd Eluned y cynhelir y cyfarfod nesaf ddechrau'r hydref (dyddiad i'w gadarnhau).

Diwedd y cyfarfod.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cyfarfod-o-grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol-20-mehefin-2024-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).